

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET

PWNC: Rhyddhau Rhybudd Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Machreth, Llanfachreth, ar 31 Awst 2016

AELOD CABINET: Cyng. Gareth Thomas

PENDERFYNIAD

Yn seiliedig ar y ffaith nad oedd unrhyw ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Machreth, Llanfachreth ar gyfrifiad disgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn mis Ionawr 2016, yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynigion (yn unol ag Adran 56 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) argymhellir:

- Cymeradwyo cychwyn proses amgen ar sail cynnig i gau Ysgol Machreth, Llanfachreth ar 31 Awst 2016 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn ystod y cyfnod trosiannol cyn sefydlu Ysgol Ddilynol Ddalgyrchol Y Gader ar 1 Medi 2017.
 - Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, cyhoeddi rhybudd statudol ar 14 Mehefin 2016 yn datgan bydd yr ysgolion yn cau 31 Awst 2016, gan ganiatau cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod rhwng 14 Mehefin a 13 Gorffennaf 2016.
 - Cynnig cludiant i'r ysgol amgen, sef Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn y cyfnod trosiannol, yn unol â'r polisi cludiant.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Mai 2015, penderfynodd Cyngor Gwynedd:

Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgyrchol cymunedol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog ar 1 Medi 2017.

Yn dilyn y penderfyniad hwn, derbynwyd lythyr gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Machreth, Llanfachreth yn nodi bod y corff llywodraethol yn pryderu nad oedd yr ysgol bellach yn gynaliadwy gan fod hi'n ymddangos bod argyfwng staffio a bod llywodraethwyr yr ysgol, mewn cydweithrediad a rhieni, wedi trefnu symud disgyblion i ysgol amgen yn unol â'r drefn mynediad arferol.

Yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion yn Ionawr 2015, roedd

11 disgybl ar gofrestr yr ysgol. Erbyn mis Mai 2015, roedd ceisiadau mynediad wedi eu derbyn i drosglwyddo 10 o'r 11 disgybl i Ysgolion eraill yn y dalgylch erbyn 1 Medi 2015.

Oherwydd yr amgylchiadau hyn, yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2015, cymeradwydd y Cabinet i:

- Dynnu'r Rhybudd Statudol ynglyn ag Ysgol Machreth, Llanfachreth yn ôl.
- Gymeradwyo cychwyn proses amgen ar sail cynnig i gau yr ysgol yn fuan yn 2016.
- Wrth ddilyn y proses statudol, gynnig lle i ddisgyblion Ysgol Machreth yn Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn ystod y cyfnod trosiannol cyn sefydlu'r Ysgol Ddilynol Ddalgyloch ar 1 Medi 2017.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013 yn nodi '*os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol. Mae hyn yn golygu bod y gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol cyn cyhoeddi cynnig i gau yn cael ei hepgor*'.

Gan ystyried yr angen hwn, a'r ffaith nad oedd unrhyw ddisgybl ar ôl yn Ysgol Machreth, Llanfachreth, ar y 3ydd ddydd Mawrth o Ionawr 2016, argymhellir rhyddhau Rhybudd Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Machreth ar 31 Awst 2016, yn gynharach na'r bwriad gwreiddiol (31 Awst 2017) yn unol a'r hyn gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2015.

Bydd y Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Côt Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

Bydd y Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi ar 14 Mehefin 2016 a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig yn y cyfnod hwn.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd. Bydd yr adroddiad hwnnw yn nodi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac fe fydd yr Aelod Cabinet wedyn yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch dyfodol Ysgol Machreth, Llanfachreth. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

Gan fod Ysgol Machreth, Llanfachreth yn Ysgol Wirfoddol a Reolir ("VC") gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru), yn unol a Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), sy'n nodi cyn cyflwyno cynigion o'r fath, **rhaid** i gynigwyr ofyn am farn unrhyw ymddiriedolaeth sydd â budd yn yr ysgol, neu'r corff crefyddol priodol, ac ystyried y safbwyntiau hyn cyn symud ymlaen. Mae

Cyngor Gwynedd wedi gofyn barn yr Eglwys yng Nghymru ynghylch y mater hwn ac wedi derbyn yr ymateb canlynol:

“Cyn belled bod Esgobaeth Bangor yn y cwestiwn, nad oes unrhyw wrthwynebiad i broses cau Ysgol Machreth symud yn ei flaen.”

Er mwyn gweithredu'r argymhellion, bwriedir dilyn yr amserlen arfaethedig isod:

Gweithred	Amserlen amlinellol
Cyhoeddi rhybuddion statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu statudol (28 diwrnod)	14 Mehefin – 13 Gorffennaf 2016
Aelod Cabinet Addysg i ystyried adroddiad ar unrhyw wrthwynebiadau	14 - 29 Gorffennaf 2016
Aelod Cabinet Addysg yn cyhoeddi taflen benderfyniad	1 Awst 2016
Penderfyniad yn weithredol (yn ddarostyngedig na fydd galw i mewn na chyfeirio i'r Llywodraeth)	15 Awst 2016
Ysgol Machreth, Llanfachreth yn cau yn ffurfiol (yn ddibynol ar benderfyniad Aelod Cabinet Addysg)	31 Awst 2016

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Cludiant - Yn unol a pholisi cludiant Cyngor Gwynedd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny o ddalgylch Ysgol Machreth, Llanfachreth, i Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn ystod y cyfnod trosiannol cyn sefydlu'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol ar 1 Medi 2017.

Ôl-ddefnydd safleoedd - Yn unol a pholisi ôl-ddefnydd Cyngor Gwynedd mae modd i'r Cyngor waredu safleoedd (ysgolion) a ddaw yn weddill i anghenion am lai na'r telerau gorau, ond dim ond mewn amgylchiadau penodol ac yn dilyn derbyn cynllun busnes sy'n cyfiawnhau'r golled ariannol yn glir. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-berchnogion yr adeilad a wedi nodi:

“Fel cyd-berchnogion yr adeilad hoffwn fod yn ran o unrhyw drafodaethau parthed dyfodol yr adeilad, ac yr ydym yn ymwybodol o flaenoriaeth yr Awdurdod i ganfod a oes defnydd cymunedol i'r adeilad yn y dyfodol. Hoffwn cyd-weithio ar hyn.”

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

1. Y Prif Weithredwr:- Dim i'w ychwanegu

-
2. Swyddog Monitro:- Mae'r daflen wedi bod yn destyn mewnbwn gan y Gwasnaeth Cyfretihol felly nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.
 3. Prif Swyddog Cyllid:- Yn yr amgylchiadau, rwy'n cefnogi'r penderfyniadau a geisir, sy'n gwbl synhwyrol. Cadarnhaf fod yr arbediad net sy'n deillio o'r penderfyniad hyn eisoes wedi'i ymrwymo ac yn cyfrannu at darged arbedion (£4.3m) yr ysgolion.
-

BARN YR AELOD LLEOL

Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Brithdir, Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltyd :

LLOFNOD



DYDDIAD

02/06/2016
